YCHYDIG O

HYMNAU NEWYDDION,

AR AMRYW FESURAU.

At ba rai y chwanegwyd,

CAN, o Gyngor i Ieuenctid.

Gan *JOSEPH HARRIS*,

CASTELL-BLAIDD, gerllaw LLANGLOFFAN, Sir BENFRO.

Canaf â'r Yſpryd ac â'r Deall hefyd.—PAUL.

Cân a llawenycha, Merch Sion.—ZECARIA.

CAERFYRDDIN,

ARGRAPHWYD GAN IOAN DANIEL.

M.DCC.XCVI.

HYMN I.

Cariad mwy nâ hwn nid oedd gan neb.

1 DEUWCH gleifion, o bob gwlad,
At Ieſu gael iachad;
O dewch yn glau, mae'n trugarhau yn rhad;
Er amled yw'ch pechodau, dewch,
Eich holl bleſerau 'nol gadewch,
Mae ffynnon all eich golchi,
Am hynny llawenhewch.

2 Mae'n bryd i lawenhau,
Daeth Ieſu yn ddilai
O'r neſoedd fry i'n gwared ni o'n gwnae!
Rhyfeddwn gariad rhad Mab Duw,
At blant afradlon dynolryw,
Fe aeth ei hun i'r lladdfa,
Fel gallem ni gael byw.

3 Fe lefodd yn ei waed,
O maddeu 'u beiau, Dad,
Ar Galfari fe gawd i ni ryddhad:
A'i waed e'n llifo'r groes i lawr,
Golgotha'n goch mewn rhyfel fawr,
Fe 'nillodd Ieſu'r frwydr,
Byth cenir am yr awr.

HYMN II.

Fy Anwylyd ſydd yn rhagori ar Ddeng Mil.

1 BYDD lawen, Sion dlawd,
Pur Adda'r Ail a gawd,
Mewn preſeb triſt y ganed Criſt,
Fy Mhriod yw a'm Brawd,
Frynd dynolryw, fy Nghyfaill yw,

Pwy gara'i ond efe?
Mae'n well nâ'r byd a'i berlau drud,
Mae'n dêg ei bryd, mae'n noddfa glud,
Mewn 'ſtormydd îs y ne'.

2 'Does gyſaill îs y ne'
Yn ffyddlon fel efe,
Can's dwg i'r lan fy enaid gwan,
O'r anial maith i dre',
Bu farw fry ar Galfari,
Fel gallem ni gael byw:
Fe roes yn rhad ei werthfawr waed,
Im' gael iachad, a gwir ryddhad,
O'm beiau dua eu lliw.

3 Fy nghalon aed yn friw,
Wrth weled gwedd Mab Duw
Yn marw fry ar Galfari,
Wrth brynu dynolryw;
Tan goron ddrain, a'r biccell fain,
Fu yn ei yſtlys fwyn:
Fy nyled i a dalodd fry,
Ar Galfari a'i waed yn llu,
Yn llifo dros ei ŵyn.

HYMN III.

Yn Nydd fy Nghyfyngder y llefaf arnat.

1 O Arglwydd Dduw, rho nerth i mi
I rodio er dy glod;
Tra bwy' ar wyneb daear ddû,
Rho 'mi gyrchu at y nod.

2 Gelynion aml creulon ſydd
Yn curo'm henaid gwan,
A minneu'n ofni nos a dydd,
Na ddof fi byth i'r lan.

3 O anwyl Ieſu, bydd o'm tu,
'Rwy' bron a cholli'r maes,

Gan faint yw grym y llygredd ſy
Yn curo'r hedyn gras.

HYMN IV.

Gofal Duw am ei Blant.

1 'RWY' gwedi troi fy nghefn
Ar wlad yr Aipht yn ſiwr,
A ngwyneb tu a Chanaan,
Er maint yw grym y dw'r:
Er gwaetha Pharao a'i fyddin,
Er gwaetha pechod cas,
Daw milwyr ffyddlon Ieſu
Yn iach o'r gwaedlyd faes.

2 Caiff Noa arch i nofio,
Cyn delo'r diluw mawr,
Caiff Lot i ffoi i Zoar,
Cyn delo'r tân i lawr;
Caiff prynegion Ieſu
Eu dygid adre'n lân,
I'r ddinas gyfaneddol,
Cyn delo'r diluw tân.

3 Na chawn i wir dyſtiolaeth,
Fy mod o werth y gwaed,
Mi faeddwn anghrediniaeth,
Cawn ſatan dan fy nhraed;
Cawn ganu i'r Oen fu farw,
I'm gwared i o'm poen,
Yng wyneb llu o wawdwyr
Ni allwn dewi ſon.

HYMN V.

Ho, ho, deuwch allan, a ffowch o Wlad y Gogledd.

1 FFOWCH, ffowch,
O Babilon ar frys ymrowch,

Eich holl deganau 'nol gadewch,
Daw cedyrn furiau hon i lawr,
Mae'r ddegfed ran ymron a d'od,
Caiff Iesu'r clod pan ddelo'r awr.

2 Daw, daw,
Holl gaerau Babel maes o law,
Yn chwilfriw mân, mae'r awr gerllaw;
Ar frys y seithfed angel gan,
Gan ddweud, Aeth holl deyrnasoedd byd,
Yn eiddo gyd ein Harglwydd glân.

3 Mae, mae,
Cwymp Babilon 'nawr yn nesau,
Mae'n bryd i'r seintiau lawenhau;
Y garreg drawd o'r mynydd pur,
Sydd yn malurio'r ddelw fawr,
Hi ddaw i lawr, mae'n colli tir.

4 Braint, braint,
Fydd gweled Babel fawr ei mhaint,
Ar fyr yn llwch dan draed y saint;
Mae Micael a'i angylion pur,
Rhyfela'n dynn o blaid y wraig,
Mae'r anferth ddraig yn colli tir.

5 Daw, daw,
Pob caeth i dre' o Babel draw,
Mae'r hyfryd ddyddiau hyn gerllaw:
Bydd Iesu'n frenin dros y byd;
Ei holl elynion crynu wnan',
Pan ddelo'r tân i'w difa gyd.

HYMN VI.

Rhyfeddod y Pechadur.

1 RHyfeddu 'rwyf, os gwelir fi
Yn rhodio tre' Caersalem fry,
Ymnlith y dyrfa hardd i gyd,
Ddihangodd adre' rhag y llid.

2 Bydd rhwymau arna'i'n fwy nag un,
Roi'r goron ar ben Mab y dyn,
Am achub un mor lleſg a llaith,
A'm dwyn i'n iach i ben fy nhaith:

3 Pan lawer gwaith bu f'enaid gwan,
Yn ofni dde'wn i byth i'r lan,
Gan faint fy ngofid, poen, a braw,
Gelynion erchyll ar bob llaw.

4 Ond melus fydd y nefol gân,
'Bo'r ddaear a'i thryſorau'n dân,
Pan byddo'r annuwiolion triſt,
Mewn dirfawr boen am wrthod Criſt.

5 'Bo'r ddaear faith yn wen-fflam boeth,
Eneidiau'n myn'd i'r farn yn noeth;
Pryd hynny caiff y cyfiawn raſ
Dros drag'wyddoldeb lawenhau.

HYMN VII.

Fy Nghamweddau a aethant dros fy Mhen megis Baich trwm.

1 RHYW faich o bechod ynwy' ſydd,
Yn blino f' yſpryd nos a dydd;
O dano 'rwy'n och'neidio'n brudd,
Yn diſgwyl d'od o'm rhwymau'n rhydd.

2 Wrth feddwl am y nefol wlad,
A'r Gwr dywalltodd droſwy'i waed,
Mae hiraeth ar fy enaid i
Am fadael â'r daearol dŷ.

3 Pan dderfydd i mi bechu mwy,
Ond canu i'r Gwr fu dan y clwy',
A byw yng wedd ei wynebpryd,
'Nol 'madael â'r daearol fyd.

4 Un gofid mwy ni ddaw i'm cwrdd,
Fy holl ofidiau ffoant ffwrdd;

Y galon leſg, a'r yſpryd iach,
Ni'm blinant mwy 'mhen gronyn bach.
Ond canu 'ngwydd angylion lu,
I'r gwr a dalodd nyled i:
Ni fleinir yno ddyblu'r gân,
Anghofir y trallodau o'r blaen.

HYMN VIII.

Bydd lawen iawn, ti Ferch Sion.

1 BYDD lawen, Sion dlawd,
Pur Adda'r ail a gawd;
Mewn preſeb triſt
Y ganed Criſt ein brawd,
Daeth Ieſu Griſt o'r nef i lawr;
Ie, daeth tan wraidd ein tlodi mawr,
Fel gallem ni gael cyfoeth,
Trwy dlodi'n Brenin dewr!

2 Ym Methle'm Juda glyd,
Cawd Perl oedd dêg ei bryd,
Fy Nghyfaill cu:
Mae'n well i mi nâ'r byd,
Gwell nâ Hafila, gwlad yr aur,
Yw'r Baban ga'd ar arffed Mair,
Y Dyn â'r Duwdod ynddo,
Wnaeth nef a dae'r trwy'i air.

3 Rhyfedded dynolryw,
Am gariad mawr Mab Duw,
Y Meddyg braf,
Sy'n gwella'r claf o'i friw:
Daeth Ieſu, Brenin nef a llawr,
Mor dlawd, heb le roi'i ben i lawr,
Fel gallem ni gael teyrnas
Tros drag'wyddoldeb mawr.

HYMN IX.

Am Gariad Crist.

1 RHyfedded dynolryw
Am gariad Ieſu cu,
'Rhwn ſu farw, i ni gael byw,
Ar fynydd Calfari.
O gariad rhyfedd fawr,
Un mwy nâ hwn ni cha'd,
Sef un i roi ei einioes lawr,
I'w frodyr gael iachad.

2 Mae'i gariad fel y tân,
Ac anorchfygol yw,
Fe loſgodd bob rhyw rwyſtrau o'i flaen,
Fe'n dygodd ni at Dduw:
Fe lefodd yn ei waed,
Ar fynydd Calfari,
O maddeu'n rhad eu beiau, Dad,
Er amled yw eu rhi'.

3 Fy enaid cwyd dy ben,
A gwel dy Brynwr cu
Yn marw fry rhwng dae'r a nen,
I dalu'th ddyled di.
Cof am y cwppan ſur
A gafodd Ieſu mawr,
A'i ddwylo a'i draed dan hoelion dur,
A'i waed yn llifo'r llawr.

HYMN X.

O deuwch i'r Dyfroedd. *Meſur byr.*

1 DEWCH gleifion o bob gwlad,
I ganlyn Ieſu gwiw,
Mae rhinwedd ddigon yn ei waed,
I gannu'r dua'i liw,

2 Am hyn afradlon rai,
Dewch at y Meddyg braf,
O dewch, cyn caffo'r drws ei gau,
Tra paro'r hyfryd haf.

3 Mae'n derbyn pawb a ddel,
Mae'n addo trugarhau,
Mae 'ddewid ef yn well nâ'r mêl,
I bawb o'i anwyl rai.

HYMN XI.

GWEDDI.

1 O Arglwydd, nertha'm henaid 'nawr,
I ganu clod i'th enw mawr,
Daroſtwng bechod dan fy nhroed,
A chwedi'n ſeiniaf maes dy glod.

2 Mae rhwymau arna'i ſeinio'th glod,
Tra fyddo'r nefoedd faith yn bod,
Am i ti alw ar fy ol,
Pan own i'n ffoi fel ynfyd ffol.

3 Mae ſatan mawr, a phechod cas,
Yn curo ar yr hedyn gras;
O anwyl Ieſu, bydd o'm rhan,
Di elli wneud yn gryf y gwan.

4 Yn uffern fawr haeddaſwn fod,
I Mhrynwr Ieſu byddo'r clod;
Fe a'm hachubodd hyd yn hyn,
Bu farw droſwy' ar y bryn.

5 O Dduw, rho nerth i'm henaid gwan,
I ddringo'r rhiwiau ſerth i'r lan;
Mae'r tonnau'n gryf, a'r tylau'n ſerth,
A finneu'n egwan, heb fawr nerth.

CAN

CAN o Gyngor i Ieuengctid.

1 GWrandewch chwi ieuengctid digri',
Ieuengctid ffol, ieuengctid ffol,
Sy'n gwrthod derbyn Ieſu, *ieuengctid ffol*;
Sy'n caru yn eich calon
Wneud aml ddrwg arferion,
I Dduw 'ry'ch yn elynion,
Dewch 'nol cyn delo'r 'ſtorom, *ieuengctid ffol,*
ieuengctid ffol.

2 Mae'm calon yn llawn triſtwch, &c. &c.
Wrth weled difaterwch, &c.
Na bai fy mhen yn ddyfroedd,
Fel wylwn bob amſeroedd,
Wrth weled cymmaint luoedd
Yn cefnu ar y nefoedd, &c. &c.

3 P'un well ſydd i chwi heddy', &c. &c.
I wneud 'rhyn archodd Ieſu, &c.
Neu ddilyn eich trychwantau,
Sef torri ei ſabbathau,
Trwy'ch aml ofer eiriau,
O'r diwedd fyn'd i'r ffammiau, &c. &c.

4 Dymunaf ar Dduw'r nefoedd, &c. &c.
Eich troi chwi 'nol yn lluoedd, &c.
A rhoi chwi eli llygaid,
Fel galloch bellach weled,
Eich bod ymron a myned
I lawr i uffern danbaid, &c. &c.

5 Nid oes dim hir orphwyſfa, &c. &c.
O fewn i'r anial yma, &c.
Rhaid i chwi gwrdd ag angeu,
Sef brenin dychryniadau,
Rhaid gadael pob pleſerau,
Eich ffryns a'ch holl berth'naſau, &c. &c.

6 Pa ham y byddwch feirw, &c. &c.
A'r Ieſu yn eich galw? &c.

Mae'ch cyrph chwi heddyw'n peſgu,
A'r enaid yn newynu,
O ffowch yn glau at Ieſu,
On'd ê cewch bythol boeni, &c. &c.

7 Nid cynnar yw hi heddy', &c. &c.
I godi croes yr Ieſu, &c.
Fe allai, cyn y foru,
Bydd d'enaid obry'n berwi,
Ymyſg y llu ofnadwy,
Am wrthod derbyn Ieſu, &c. &c.

8 'Ry'ch heddy' am y tecca', &c. &c.
Yn dweud eich geiriau 'ſmala, &c.
Ond, fe allai'r wyneb hynny,
Sydd hardda 'mhlith y cwmp'ni,
Ar fyr a gaſgl barddu,
Mewn poenau anrhaethadwy, &c. &c

9 Daw dydd o bryſur bwyſo, &c. &c.
Caiff gwaith pob gwr ei dreio, &c.
Daw angeu, fel gwr arfog,
Fe gwymp y mwya' enwog,
A'r merched ffein ſidanog,
Fe ddua'r wyneb ſerchog, &c. &c.

10 Pa'm cerwch bechod enbaid, &c. &c.
Sef gelyn penna'ch enaid, &c.
Pa ham yr y'ch chwi'n treulio
Eich amſer heb weddio?
Mae Duw yn foddlon gwrando,
Eich henaid mentrwch arno, &c. &c.

11 A gaiff holl weiſion Ieſu, &c. &c.
Yn ofer eich cynghori? &c.
Caiff pawb i wneud eu goreu,
Tân uffern ffynnwch chwitheu,
O ffowch am eich eneidiau,
Mae Duw yn hogi'i gleddau, &c. &c.

12 Ar fyr daw Priod Sion, &c. &c.
I hol ei waredigion, &c.
Fe ſydd y môr yn berwi,

A chreigiau'r byd yn hollti,
A'r meirw o'u beddau'n codi;
P'le ſefwch chwi pryd hynny? &c. &c.

13 P'le'r y'ch chwi'n meddwl treulio, &c. &c.
Y byd ſydd bron a gwawrio? &c.
Mae achos genny' ofni,
Mai uffern danllyd obry,
Fydd eich trag'wyddol letty,
Os para wnewch i bechu, &c. &c.

14 Mae'n rhaid i chwi roi ffarwel, &c. &c.
A phawb mae'n rhaid ymadael, &c.
Pan fyddo'r traed yn oeri,
A'r llygaid gwych yn pwli,
A'r ffryns anwyla'n cefnu,
Pryd hyn bydd da cael Ieſu, &c.

15 Am hynny ffowch i'r noddfa, &c. &c.
Tr'o dyddiau gras yn para, &c.
Mae'r Ieſu heddyw'n derbyn
Pob rhai o'r meibion cyndyn,
A ddelo i'w ymofyn,
Am hyn dewch atto'n gyflym, &c. &c.

16 Brawd anwyl aned i ni, &c. &c.
Mae'n ffrynd mewn awr o g'ledi, &c.
Mae'r Gwr ſu ar galfaria
Yn danfon lawr y manna,
Mae ei holl blant yn gwledda,
Trowch chwitheu'r ymddiffynfa, &c. &c.

17 Dymunwn gael eich cwmp'ni, &c. &c.
Yn nhre' Caerſalem Newydd, &c.
Mae hiraeth yn fy nghalon
Am weled fy nghyfoedion
'Nwynebu tu a Sion;
Dewch, dewch, chwi blant afradlon, *ieuengctid ffol, ieuengctid ffol.*

19 AU 64

TERFYN.